Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Prospects

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Prospects

Agorwyd Ysgol Prospects ym 1994. Mae wedi'i lleoli mewn eiddo mawr, ar wahân, sydd â thir helaeth yn Y Bers, Wrecsam. Cafodd yr ysgol ei chaffael gan ei pherchnogion presennol, sef Keys Childcare, ym mis Mawrth 2015. Mae'r perchennog yn gweithredu 19 ysgol yn y DU ar hyn o bryd. Mae dwy o'r rhain yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni, yn ogystal â lleoliadau dydd i ddisgyblion o awdurdodau lleol cyfagos.

Mae 11 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig neu gynlluniau addysg a gofal iechyd. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Mae gan lawer o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal ac mae mwyafrif y disgyblion yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n lleoli ychydig dros hanner y disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Gorffennaf 2016. Cynorthwyir y pennaeth gan dîm addysg sy'n cynnwys chwech o athrawon ac un cynorthwyydd cymorth dysgu.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r ysgol ym mis Chwefror 2012.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn y cwmni yn darparu arweinyddiaeth gref o ddydd i ddydd ar gyfer yr ysgol. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddarparu amgylchedd sefydlog a meithringar ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn helpu mwyafrif y disgyblion i gaffael y medrau sydd eu hangen arnynt yng ngham nesaf eu bywydau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae gan athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ddealltwriaeth gref o anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda nhw. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynorthwyo disgyblion ac yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a diddordebau mwyafrif y disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion hyn yn ymateb yn gadarnhaol i strategaethau rheoli ymddygiad yr ysgol ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gynhyrchiol â'u dysgu. Caiff eu hymddygiad gwael effaith negyddol ar eu dysgu eu hunain, a dysgu disgyblion eraill yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn casglu ystod eang o ddata i arfarnu agweddau pwysig ar les disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnydd yr ysgol o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu safonau gwaith disgyblion a'r cynnydd a wnânt yn eu dysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

# Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig, Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

## Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003, dylai'r ysgol:

- ddarparu addysg oruchwyliedig amser llawn ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol 1(2)(a)(i)

## Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003, dylai'r ysgol:

- gynnal cofrestr presenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 3(9)

## Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Safle ac adeiladau preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella ymddygiad ac ymgysylltiad lleiafrif o ddisgyblion

A3 Sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau pob un o'r disgyblion

A4 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn canolbwyntio ar safonau gwaith disgyblion a'r cynnydd a wnânt dros gyfnod

## Beth sy'n digwydd nesaf

Gan nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn i'r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod penodol.  Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safonau, a'r raddfa amser y bydd yn cwblhau pob cam ynddi.

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio ei gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai ddosbarthu'r cynllun hwn hefyd, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n llwyddiannus yr hyder sydd ei angen arnynt i elwa ar ddysgu oherwydd y cymorth a'r anogaeth fuddiol a gânt gan staff. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol, gan nad ydynt yn ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu ac maent yn gwastraffu gormod o amser.

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Prospects ystod eang o anghenion addysgol ac emosiynol. O'r herwydd, nid yw'n briodol cymharu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion â chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau dros gyfnod. Nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad yr holl ddisgyblion a pherfformiad bechgyn a merched. Dim ond yn ddiweddar y mae'r ysgol wedi dechrau derbyn disgyblion dydd. O ganlyniad, nid oes digon o ddata i gymharu perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion â'r rheiny sydd dan ofal eu hawdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau rhifedd. Mewn gwersi mathemateg, maent yn gwneud cyfrifiadau â'r pedair rheol rhif yn gywir ac yn dewis y gweithrediad cywir i ddatrys problemau mathemategol. Er enghraifft, maent yn trin hafaliadau yn effeithiol i gyfrifo cyflymder, pellter ac amser. Mae rhai disgyblion yn cyfrifo ffracsiynau a chyfrannau, ac yn nodi llinellau cymesuredd yn llwyddiannus. Mae ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn defnyddio trigonometreg yn hyderus i gyfrifo maint onglau a hyd ochrau triongl.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ychydig o feysydd dysgu eraill. Er enghraifft, maent yn casglu data ac yn arddangos eu canfyddiadau mewn siartiau a graffiau wrth ddadansoddi nifer y bobl sy'n perthyn i brif grefyddau'r byd. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda mewn sefyllfaoedd bob dydd, go iawn hefyd. Er enghraifft, maent yn dysgu rheoli cyllideb ac yn pennu cost gwelliannau i dir yr ysgol.

Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau llythrennedd mewn gwersi Saesneg. Maent yn darllen yn gywir ac yn dethol gwybodaeth yn hyderus o destunau amrywiol. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen a gallant grynhoi prif bwyntiau stori yn gywir. Mae ychydig o ddisgyblion, sy'n fwy abl, yn darllen nofelau ac yn defnyddio eu medrau'n dda i ddod i gasgliad ynglŷn â bwriad yr awdur, y gynulleidfa yr ysgrifennwyd y llyfr ar ei chyfer a pha mor dda y mae'r awdur yn llwyddo i gyfleu ei neges.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddealladwy ac mae mwyafrif ohonynt yn strwythuro eu gwaith yn briodol mewn brawddegau a pharagraffau. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn gwersi Saesneg gan ddefnyddio arddulliau perthnasol ac at ystod o ddibenion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol mewn pynciau eraill fel gwaith testun mewn addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn ymfalchïo'n ddigonol yn ansawdd a thaclusrwydd eu gwaith ysgrifenedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, a gwnânt gamgymeriadau niferus mewn sillafu a gramadeg.

Yn gyffredinol, ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n hyderus i ofyn cwestiynau a gofyn am eglurhad pan fydd angen. Mae'r disgyblion hyn yn siarad yn glir ac yn defnyddio amrywiaeth briodol o iaith am eu hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder yn eu medrau llafaredd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn ymestyn eu syniadau'n ddigon da ac maent yn rhoi atebion ar lafar sy'n rhy fyr neu arwynebol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i ailddrafftio aseiniadau ysgrifenedig mewn Saesneg ac ymchwilio i destunau mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd cynhyrchiol o TGCh i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, a gwnânt gynnydd cyfyngedig o ran datblygu eu medrau mewn TGCh.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf pan fyddant yn cymryd rhan mewn addysg yn yr awyr agored a gweithgareddau corfforol. Trwy addysg bersonol a chymdeithasol, mae disgyblion yn datblygu amrywiaeth eang o fedrau meddwl a medrau datrys problemau pwysig. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynllunio prosiectau i ddylunio'r ystafell gyffredin, trefnu digwyddiadau codi arian elusennol a threfnu dathliad diwedd blwyddyn. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn datblygu medrau cymdeithasol a gwaith tîm pwysig trwy gymryd rhan yn llwyddiannus mewn lleoliadau profiad gwaith mewn stablau lleol, salon gwallt a garej. Mae'r medrau hyn yn eu helpu i baratoi'n dda ar gyfer bywyd yn y dyfodol.

Mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn gadael yr ysgol gyda chymhwyster lefel mynediad mewn mathemateg ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadael gyda chymhwyster lefel mynediad mewn Saesneg. Enillodd ychydig iawn o ddisgyblion gymhwyster TGAU mewn mathemateg, Saesneg, celf neu fioleg. Mae llawer o ddisgyblion yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Prospects ystod eang o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o ddisgyblion wedi cael profiad o waharddiadau a methiannau mewn lleoliadau blaenorol. Maent yn cyrraedd yr ysgol â hanes o bresenoldeb gwael ac wedi colli cryn dipyn o addysg yn rheolaidd cyn dechrau'r ysgol. O ganlyniad, prin yw eu hyder yn eu gallu eu hunain fel dysgwyr ac fe gânt anawsterau sylweddol yn rheoli eu hymddygiad eu hunain.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn meithrin perthnasoedd llwyddiannus gyda staff ac yn magu'r hyder sydd ei angen arnynt i ddysgu. Mae disgyblion sydd â hanes gwael o bresenoldeb yn eu hysgol flaenorol yn gwella eu presenoldeb yn sylweddol yn yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau pan fyddant yn cael cyfle i wneud dewisiadau a chymryd perchnogaeth o'u dysgu. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgymryd yn dda â thasgau, yn dal ati i ganolbwyntio ac yn dangos ystyriaeth addas o bobl eraill. Mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd addas yn eu dysgu mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol.

Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cydweithredu'n gyson dda â disgyblion eraill na gyda staff. Dangosant ychydig iawn o ddiddordeb yn eu gwaith ac nid ydynt yn aros yn y dosbarth am y wers gyfan. Nid ydynt yn gwrando'n dda ar eu hathrawon a defnyddiant iaith amhriodol â disgyblion a phobl eraill yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn amharchus at staff ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Caiff eu hymddygiad gwael effaith sylweddol ar eu dysgu eu hunain ac ar gynnydd disgyblion eraill yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwybod am bwysigrwydd diet cytbwys a gweithgarwch corfforol wrth gynnal ffordd iach o fyw. Er enghraifft, maent yn mwynhau ac yn ymgymryd yn dda ag ystod eang o weithgareddau corfforol, fel dringo, pysgota a saethyddiaeth. Maent yn gweithio'n frwdfrydig ar brosiectau drama a chelf i ddysgu am yr agweddau ehangach ar ddiogelwch personol a chamddefnyddio sylweddau. Maent yn deall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac am y peryglon i ddiogelwch personol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Dros gyfnod, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'r hyder sydd ei angen arnynt i ymgymryd â rolau arwain yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn arwain y gwasanaeth dyddiol ac yn trefnu digwyddiadau i godi arian at elusennau yn y gymuned leol. Maent yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y cyngor ysgol trwy helpu adolygu polisi gwobrau'r ysgol a chynllunio gwelliannau i gyfleusterau'r ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwmpasu'r saith maes dysgu fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae'r cwricwlwm wedi'i strwythuro'n fras o amgylch pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol, sy'n bodloni eu hanghenion a'u diddordebau unigol yn dda ar y cyfan. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar ganolfan addysg awyr agored sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod fuddiol o chwaraeon awyr agored a gweithgareddau antur. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu hunan-barch a gwydnwch disgyblion sydd, dros gyfnod, yn helpu ennyn diddordeb mwyafrif y disgyblion yn llwyddiannus mewn dysgu. Fodd bynnag, i leiafrif o ddisgyblion, nid yw profiadau dysgu'n ddigon difyr ac nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Caiff disgyblion hŷn ddewisiadau gwerth chweil i gymryd rhan mewn addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, mewn meysydd fel adeiladu a mecaneg neu reoli stablau. Mae hyn yn eu galluogi i ymarfer a datblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol mewn cyd-destunau realistig y tu allan i'r ysgol, ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o fyd gwaith. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys ffocws cryf ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion cymdeithasol perthnasol, fel hiliaeth, ymwybyddiaeth iechyd meddwl a digartrefedd. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau cymunedol, fel codi arian a chefnogi cystadleuaeth 'Y Bers yn ei Blodau' ('Bersham in Bloom') trwy ddylunio planwyr ac arddangosfeydd blodau. Mae'r gweithgareddau hyn yn hyrwyddo datblygiad medrau datrys problemau a gwaith tîm disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn pynciau fel Saesneg a mathemateg. Ceir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn ychydig o bynciau eraill. Fodd bynnag, ni chaiff y cynllunio i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm ei gydlynu'n ddigon da. Ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau TGCh yn unol â'u galluoedd.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a meithrin perthnasoedd gweithio adeiladol gyda disgyblion. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn annog disgyblion yn gyson i gynnal eu ffocws a gwneud eu gorau.

Yn y mwyafrif o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio cyfresi o wersi yn ofalus, ar sail cynlluniau gwaith manwl sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyson dros gyfnod. Mae'r athrawon hyn yn gosod amcanion ystyrlon ac yn cynnwys gweithgareddau diddorol sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion. Defnyddiant holi yn effeithiol i fagu hyder disgyblion yn eu hatebion ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth.

Mewn lleiafrif o wersi, fodd bynnag, mae diffyg her addas yn yr addysgu. Nid yw tasgau yn adeiladu'n raddol ar lefelau cyrhaeddiad blaenorol disgyblion nac yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da ac mae rhediad y dysgu'n rhy araf. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymgymryd â'u dysgu ac fe gaiff eu hymddygiad gwael effaith negyddol ar ddysgu disgyblion eraill yn yr ysgol.

Ym mhob gwers, mae athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth calonogol ar lafar i gymell a chynorthwyo disgyblion. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar yr ymdrech y mae disgyblion wedi'i wneud i gwblhau eu gwaith ac mae'n canmol yr hyn y mae disgyblion wedi'i wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn nodi'n ddigon cyson yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud nesaf i wella'u gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn ymdrin yn gynhwysfawr ag ystod eang o faterion cymdeithasol a moesol pwysig a pherthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd, diogelwch ar-lein, ailgylchu a phwysigrwydd dewisiadau am ffordd iach o fyw. Mae'r rhaglen yn darparu dull sy'n seiliedig ar brosiect sy'n galluogi disgyblion i archwilio'r materion hyn mewn grwpiau bach. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu medrau datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm gwerthfawr. Mae'r cwrs hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgysylltu â'r gymuned leol a chefnogi achosion gwerth chweil trwy godi arian ar gyfer elusennau lleol. Mae'n trefnu darpariaeth gref i ddisgyblion ddysgu am ystod eang o draddodiadau diwylliannol. Mae'r rhaglen hon yn gryfder yng ngwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ffurfio partneriaethau strategol effeithiol ag ystod fach o asiantaethau arbenigol sy'n darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer anghenion unigol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth seicoleg, Gyrfa Cymru a phrosiect gydag elusen leol i godi ymwybyddiaeth disgyblion am wneud dewisiadau iach ynghylch ffordd o fyw.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cofnodi ac olrhain agweddau pwysig ar les disgyblion, gan gynnwys ymddygiad ac agweddau tuag at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefn yr ysgol ar gyfer cofnodi presenoldeb yn ffordd ddibynadwy o fesur presenoldeb disgyblion yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae ffocws priodol yn y system rheoli ymddygiad ar wobrwyo ymddygiad da ac annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hemosiynau. Mae'r system wobrau yn llwyddiannus o ran cynorthwyo mwyafrif o ddisgyblion i newid eu hymddygiadau. Fodd bynnag, nid yw'n effeithiol o ran helpu lleiafrif o ddisgyblion i wella ymddygiadau penodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn ymddieithrio o ddysgu ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r ysgol yn creu gwaelodlin fanwl o gyrhaeddiad disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu pan fyddant yn dechrau. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddatblygu cynlluniau dysgu addas a gosod targedau priodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a datblygiad personol mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau). Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol i fodloni anghenion llythrennedd a rhifedd ychwanegol ychydig iawn o ddisgyblion yn bodloni gofynion ac nid yw'n helpu'r disgyblion hyn i gyflawni targedau perthnasol y CAU.

Yn gyffredinol, mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion wrth gyflawni eu datblygiad personol a'u targedau rhifedd yn dda. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion wrth gyflawni eu targedau llythrennedd wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, nid yw'r ysgol yn olrhain y cynnydd a wna disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau rheolaidd a manwl i rieni a gofalwyr am gynnydd, agweddau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud nifer o newidiadau o ran staffio, arweinyddiaeth a pherchnogaeth. Ers ei benodi yn 2016, mae'r pennaeth wedi ymgymryd â rôl bwysig mewn darparu arweinyddiaeth weithredol effeithiol yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn o newid. Mae'r pennaeth, ynghyd ag uwch arweinwyr yn y cwmni, yn cyfleu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddarparu amgylchedd sefydlog a meithringar sy'n paratoi disgyblion â'r medrau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn ystod y cam nesaf yn eu bywydau.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod staff yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Ceir cyfathrebu agored ac effeithiol ar draws yr ysgol. Er gwaethaf cyfnod o ansefydlogrwydd ymhlith staff yn

ddiweddar, mae athrawon a staff cymorth dysgu yn deall eu rolau'n dda ac maent wedi gweithio gyda'i gilydd yn gydlynus fel tîm i ddarparu cymorth a pharhad ar gyfer disgyblion. Mae uwch reolwyr yn y cwmni i'w gweld yn yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r pennaeth a'r staff.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu ystod eang o ddata sy'n canolbwyntio ar agweddau pwysig ar les disgyblion, gan gynnwys data ar bresenoldeb ac ymddygiad. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lywio cynlluniau lleoli disgyblion i ddarparu adborth perthnasol ar gynnydd disgyblion i awdurdodau lleol ac i'r perchennog. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i farn disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid wrth fonitro pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ddull strategol o arfarnu tystiolaeth uniongyrchol ar lefel ysgol gyfan. Er enghraifft, megis dechrau datblygu y mae prosesau'r ysgol i arfarnu safonau gwaith disgyblion ac ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, mae dealltwriaeth arweinwyr o safonau disgyblion a chyfradd y cynnydd a wna disgyblion yn gyfyngedig, ac nid yw'n ffurfio sylfaen gadarn i'r ysgol gynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen briodol ar gyfer hyfforddi staff, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu eu dealltwriaeth o ystod eang o faterion sy'n ymwneud â lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i staff gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu, neu i arsylwi arfer orau mewn ysgolion eraill, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Tan yn ddiweddar iawn, ni fu gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig. Mae hyn wedi cyfyngu ar allu'r pennaeth i gynllunio'n strategol i wneud gwelliannau tymor hir i ddarpariaeth yr ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf sydd ag adnoddau addas sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae'n defnyddio'i hadnoddau'n dda i sicrhau darpariaeth gan ddarparwyr allanol, sy'n gwella ystod ac ansawdd y profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion. Mae hyn wedi gwella cyfleoedd i ddisgyblion elwa ar gyrsiau galwedigaethol neu gyrsiau cerddoriaeth, er enghraifft, sy'n bodloni anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw agweddau ar amgylchedd allanol yr ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid yw'r adnoddau ar gyfer TGCh yn ddigonol i hyrwyddo datblygiad medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gan uwch arweinwyr yn y cwmni, wedi cymryd camau effeithiol i wella agweddau ar waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwella ethos yr ysgol a monitro defnydd disgyblion o ystafelloedd amser saib yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag agwedd bwysig ar ddiffyg cydymffurfio a nodwyd ar ymweliad monitro blaenorol Estyn. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2018